# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 26
21/09/20

## Josua a Chaleb

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref
tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

**Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!**




**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon,
Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda
gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Kathryn Williams
a Gwyn Rhydderch

An English version is also available

**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org**



# Stori



## Fersiwn Beibl.net

Dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrth Moses: "Anfon ddynion i archwilio gwlad Canaan, sef y tir dw i'n ei roi i bobl Israel. Anfon un arweinydd o bob llwyth."

Felly dyma Moses yn eu hanfon nhw o anialwch Paran, fel roedd yr ARGLWYDD wedi dweud wrtho. Roedden nhw i gyd yn arweinwyr pobl Israel. Dyma'u henwau nhw: Shammwa fab Saccwr o lwyth Reuben, Shaffat fab Chori o lwyth Simeon, Caleb fab Jeffwnne o lwyth Jwda, Igal fab Joseff o lwyth Issachar, Hoshea fab Nwn o lwyth Effraim, Palti fab Raffw o lwyth Benjamin, Gadiel fab Sodi o lwyth Sabulon, Gadi fab Swsi o lwyth Joseff (sef Manasse), Ammiel fab Gemali o lwyth Dan, Sethwr fab Michael o lwyth Asher, Nachbi fab Foffsi o lwyth Nafftali, Gewel fab Machi o lwyth Gad. Dyna enwau'r dynion anfonodd Moses i ysbïo'r wlad. Ac roedd Moses yn galw Hoshea fab Nwn yn Josua.

Pan anfonodd Moses nhw i archwilio gwlad Canaan, dwedodd fel hyn: "Ewch i fyny drwy'r Negef, ac ymlaen i'r bryniau. Edrychwch i weld sut wlad ydy hi. Ydy'r bobl yn gryf neu'n wan? Oes yna lawer ohonyn nhw, neu ddim ond ychydig? Sut dir ydy e? Da neu ddrwg? Oes gan y trefi waliau i'w hamddiffyn, neu ydyn nhw'n agored? Beth am y pridd? Ydy e'n ffrwythlon neu'n wael? Oes yna fforestydd yno? Byddwch yn ddewr! Ewch yno, a dewch â pheth o gynnyrch y tir yn ôl gyda chi." (Roedd hi'r adeg o'r flwyddyn pan oedd y grawnwin aeddfed cyntaf yn cael eu casglu.)

Felly i ffwrdd â nhw. A dyma nhw'n archwilio'r wlad, yr holl ffordd o anialwch Sin yn y de i Rechob, wrth Fwlch Chamath, yn y gogledd. Wrth fynd drwy'r Negef, dyma nhw'n cyrraedd Hebron. Roedd yr Achiman, y Sheshai a'r Talmai yn byw yno, sef disgynyddion Anac. (Roedd tref Hebron wedi'i hadeiladu saith mlynedd cyn Soan yn yr Aifft.) Pan gyrhaeddon nhw ddyffryn Eshcol, dyma nhw'n torri cangen oddi ar winwydden gydag un swp o rawnwin arni. Roedd rhaid cael dau ddyn i'w chario ar bolyn rhyngddyn nhw. A dyma nhw'n casglu pomgranadau a ffigys hefyd. Roedd y lle'n cael ei alw yn ddyffryn Eshcol (sef 'swp o rawnwin') o achos y swp o rawnwin roedden nhw wedi'i gymryd oddi yno.

Roedden nhw wedi bod yn archwilio'r wlad am bedwar deg diwrnod. A dyma nhw'n mynd yn ôl i Cadesh yn anialwch Paran, at Moses ac Aaron a phobl Israel. A dyma nhw'n dweud wrth y bobl beth roedden nhw wedi'i weld, ac yn dangos y ffrwyth roedden nhw wedi ei gario yn ôl. Dyma nhw'n dweud wrth Moses, "Aethon ni i'r wlad lle gwnest ti'n hanfon ni. Mae'n dir ffrwythlon – tir lle mae llaeth a mêl yn llifo! A dyma beth o'i ffrwyth. Ond mae'r bobl sy'n byw yno yn gryfion, ac maen nhw'n byw mewn trefi caerog mawr. Ac yn waeth na hynny, mae disgynyddion Anac yn byw yno. Mae'r Amaleciaid yn byw yn y Negef, yr Hethiaid, Jebwsiaid ac Amoriaid yn byw yn y bryniau, a'r Canaaneaid yn byw ar yr arfordir ac ar lan afon Iorddonen."

Ond yna dyma Caleb yn galw ar y bobl oedd yno gyda Moses i fod yn dawel. "Gadewch i ni fynd, a chymryd y wlad! Gallwn ni ei choncro!" Ond dyma'r dynion eraill oedd wedi mynd i archwilio'r wlad yn dweud, "Na, allwn ni ddim ymosod ar y bobl yno. Maen nhw'n llawer rhy gryf i ni!" A dyma nhw'n rhoi adroddiad gwael i bobl Israel, "Byddwn ni'n cael ein llyncu gan bobl y wlad buon ni'n edrych arni. Mae'r bobl welon ni yno yn anferth! Roedd yno gewri, sef disgynyddion Anac. Roedden ni'n teimlo'n fach fel pryfed wrth eu hymyl nhw, a dyna sut roedden nhw'n ein gweld ni hefyd!"

*Numeri 13 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Dywedodd Duw wrth Moses ei bod yn amser i'r Israeliaid fynd i mewn i'r wlad roedd O wedi ei haddo iddyn nhw. Dywedodd wrth Moses am anfon un person o bob un o ddeuddeg llwyth Israel i ysbïo'r wlad ac i weld sut le oedd yno. Wnaethon nhw fel y gorchmynnodd Moses a dyna'n nhw'n mynd i archwilio'r wlad yn fanwl. Roedd hi'n wlad hyfryd a da a llawer o bethau'n tyfu'n rhyfeddol yno. Wnaethon nhw ddod o hyd i glystyrau o rawnwin oedd mor fawr nes bod yn rhaid i ddau ddyn eu cario ar gangen coeden. Wedi i'r ysbïwyr fod yn y wlad am 40 diwrnod fe ddaethon nhw'n ôl i adrodd yr holl hanes i Moses. Dywedodd dau ohonynt- Josua a Chaleb - mor rhyfeddol oedd y wlad ac y byddai'r Israeliaid yn gallu ei choncro. Ond oherwydd bod arnyn nhw ofn, fe wnaeth y 10 ysbïwr arall ddweud bod y dinasoedd yn rhy fawr a'r bobl yno fel cewri ac yn rhy gryf. Doedden nhw ddim yn credu yn addewid Duw.



# Cwestiynau i'w Trafod

Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:


1. Wyt ti wedi gorfod gwneud rhywbeth anodd rhywdro? Beth oedd o?
2. Pan mae angen gwneud rhywbeth anodd, wyt ti'n barod i roi cynnig arni, neu wyt ti'n rhoi'r gorau iddi'n rhy hawdd?
3. Roedd Duw wedi helpu'r bobl mewn llawer o sefyllfaoedd anodd. Pam wyt ti'n meddwl fod y bobl yn dal i ofni mentro?



# Stori i'w lliwio

## Yr hyn welodd Josua a Chaleb


www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Mae'r hanes hwn yn y Beibl yn ein hatgoffa i ymddiried yn Nuw i'n helpu ni, yn enwedig pan mae arnom ofn.




Dywedodd Duw wrth Moses ei bod yn amser i blant Israel fynd i'r wlad dda roedd o wedi ei haddo iddyn nhw, y wlad roedd o wedi ei haddo i'w cyndadau. "Dewisa ddeuddeg o ddynion i fynd i ysbïo'r wlad,"




Aeth y deuddeg dyn i Ganaan a gwelsant mor ardderchog roedd popeth yn tyfu yno. Roedd y gwartheg yn dew, yr ŷd yn dal a'r gerddi'n llawn o goed ffrwythau a chychod gwenyn.




Ac roedd y grawnwin ar y gwinwydd y rhai mwyaf roedden nhw wedi eu gweld erioed o'r blaen. Cariodd dau ddyn swp o rawnwin ar gangen coeden i'w dangos i Moses.



Ond pan welodd yr ysbïwyr waliau uchel y ddinas daeth ofn mawr arnynt a dyna nhw'n dweud, "Allwn ni fyth fyw yn y wlad hon! Bydd y bobl yn rhy gryf ac yn ymladd â ni."



Aethant yn ôl a dweud wrth Moses am yr holl bethau roedden nhw wedi eu gweld. "Mae waliau'r ddinas yn rhy uchel ac mae dynion Canaan mor fawr â chewri. Fyddan nhw'n rhy gryf i ni eu concro," medden nhw'n ofnus.



Ond dangosodd Josua a Chaleb y ffigys, y grawnwin a'r pomgranadau oedd yn tyfu mor dda yng ngwlad Canaan. "Mae'r tir hwn mae Duw wedi ei ddangos i ni yn dir da," medden nhw. "Mae yna ddigonedd o lefrith a mêl hefyd."



"Mae Duw wedi gofalu amdanon ni ers i ni adael yr Aifft. Dewch i ni ymddiried y bydd Duw'n rhoi'r tir da hwn i ni yn union fel mae o wedi ei addo."


# Gweddi fer


O Dduw, rwyt Ti'n Dduw mawr a nerthol. Does yna ddim byd yn rhy anodd i Ti. Diolch dy fod Ti'n rhoi gobaith ym mhob peth. Plîs helpa fi i gofio dy fod Ti'n agos ata i bob amser a mod i'n gallu gofyn am dy help Di i geisio gwneud pethau anodd. Amen.



# Pos

Faint o bob un o luniau hyn fedru di eu cyfrif? Ysgrifenna'r niferoedd isod a lliwio'r lluniau.





# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M | I | C | A | L | E | B | S | Y | G | I | FF |
| O | F | S | R | E | S | U | S | T | B | R | I |
| S | E | I | R | Y | Y | S | B | I | W | Y | R |
| E | R | G | J | A | F | R | I | Y | O | M | W |
| S | T | A | O | N | E | A | TH | S | R | E | E |
| L | Ê | O | S | I | A | L | M | E | C | G | C |
| FF | N | D | U | W | O | A | Ê | I | N | N | U |
| T | O | D | A | N | A | R | G | M | O | P | A |
| E | R | I | G | W | L | A | D | F | C | R | I |
| N | A | A | N | A | C | Y | N | W | L | I | L |
| W | A | S | A | R | LL | A | E | TH | NG | DD | A |
| P | O | B | L | G | E | DD | U | E | D | N | W |

AARON
ANFON
BYW
CALEB
CANAAN
CEWRI
CONCRO
CRYF
DEUDDEG
DUW
FFIGYS
FFRWYTHLON
GRAWNWIN
GWLAD
ISRAEL
JOSUA
LLAETH
MÊL
MOSES
POBL
POMGRANAD
PRIDD
TREFI
WALIAU
YSBIWYR

## Be welaist ti?

| | Beth welais i |
|---|---|
| 1 | *Drws glas* |
| 2 | |
| 3 | |
| 4 | |
| 5 | |
| 6 | |
| 7 | |
| 8 | |
| 9 | |
| 10 | |

# Sialensau

Pan fyddi'n mynd allan am dro tria gofio, ceisia gofio 10 o bethau gwych rwyt ti wedi eu gweld a ddyweda wrth bawb pan gyrhaeddi di adre.
Defnyddia'r tabl i dy helpu.

## Bydda'n ddewr!

Ceisia fwyta rhywbeth nad wyt ti erioed wedi ei fwyta o'r blaen!



# Gweddi Greadigol


## Gweddi gobaith

Yn yr hanes o'r Beibl, roedd Caleb a Josua yn llawn gobaith fod Duw yn mynd i'w helpu. Mae'r enfys yn arwydd o obaith.

- Meddylia am y bobl yn dy gymuned sy'n dod â gobaith i ti, pobl fel meddygon, athrawon, teulu.
- Ysgrifenna eu henwau yn y llythrennau.

# Gobaith

- Gorffenna liwio'r enfys.
- Wrth i ti liwio, diolcha i Dduw am bobl sy'n dod â gobaith.




# Dolenni





Fideo o'r stori https://www.youtube.com/watch?v=Ivxhjp1zHO0





Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/2j5PytQ5GzE




Cartŵn o'r stori (Saesneg) https://www.youtube.com/watch?v=C2iYUPs7c-U

# Crefft



## Binocwlars

**Byddi angen:**
2 silindr cardfwrdd(neu'r tu mewn i 'kitchen roll' wedi ei dorri'n hanner), dalen o bapur gwyn A4, styffylwr, siswrn, pensil, glud, pinnau ffelt






**1.** Gosoda'r silindr cardfwrdd ar waelod ymyl y papur a gwna linell ar y papur â'r bensil ble mae top y silindr cardfwrdd.



**2.** Plyga'r papur ble mae'r llinell ar y papur. Torra ar hyd y llinell â siswrn.



**3.** Ailadrodda gamau 1 a 2 fel bod gen ti 2 ddarn o bapur sydd yr un uchder â'r silindrau cardfwrdd.



**4.** Addurna'r 2 ddarn papur â'r pinnau ffelt.






**5.** Tro'r papur wyneb i waered a'i orchuddio â glud ac yna rolia'r papur am y silindr cardfwrdd. Pwysa'r papur a'r silindr cardfwrdd at ei gilydd yn dda. Gwna'r un peth eto â'r silindr cardfwrdd a'r papur addurnedig arall.



**6.** Dalia'r ddau silindr cardfwrdd yn ei gilydd a styffyla nhw ar y tu mewn i'w rhoi yn sownd.



**7.** Gwna'n siŵr dy fod yn styffylu'r top a'r gwaelod fel bod y silindrau cardfwrdd yn sownd yn ei gilydd yn iawn.



Mae dy finocwlars yn barod i'w defnyddio. Mwynha!

# Gêm

## Yn y Bag!

Dyfala pa ffrwyth neu lysieuyn sydd yn y bag.

**Byddi angen:**

- Amrywiaeth o ffrwythau a llysiau
- Cas gobennydd neu fag na fedri di weld trwyddo

**Sut i chwarae:**

- Rho'r ffrwythau a'r llysiau amrywiol yn y bag.
- Dylai pob person sy'n chwarae gymryd ei dro i roi ei law yn y bag ond heb edrych ynddo.
- Mae angen i'r person afael yn un o'r ffrwythau neu'r llysiau a cheisio dyfalu beth ydy o.
- Pan mae'r person wedi dyfalu'n gywir neu os ydy o'n dyfalu'n anghywir neu ddim yn gwybod mae angen iddo dynnu'r ffrwyth neu'r llysieuyn allan o'r bag.
- Yna dylid pasio'r bag i'r person nesaf.




# Canu

Mae'r ARGLWYDD yn cadw ei air,
Mae'r ARGLWYDD yn cadw ei air,
Mae'r ARGLWYDD yn cadw ei air
ac yn ffyddlon ym mhopeth mae'n ei wneud.

Salm 145
Salm 145
Salm145
adnod 13



Cân hawlfraint 2020 Andy Hughes

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/2j5PytQ5GzE

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) ar gyfer y gân hon,
cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org